CYPE(5)-06-21 - Papur i'w nodi 2

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/ MA-KW-4238-20

Lynne Neagle AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

2 Ionawr 2021

Annwyl Lynne

Fe gofiwch i mi ysgrifennu atoch ym mis Medi, yn amlinellu cynllun diwygiedig ar gyfer gosod y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r rheoliadau cysylltiedig. Ymrwymais hefyd i roi diweddariad i chi ar weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 o fis Medi 2021.

Yn 2018, cyhoeddais gynllun gweithredu drafft a oedd yn amlinellu amserlen tair blynedd ar gyfer symud o'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) sydd eisoes yn bodoli i'r system anghenion dysgu ychwanegol newydd.

Ers cyhoeddi'r cynllun, mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar Gymru. Felly, rwyf wedi ystyried yn ofalus fy nodau ar gyfer gweithredu'r system newydd, yn seiliedig ar yr hyn yr wyf yn credu sy'n rhesymol i'w gyflawni yn yr amgylchiadau presennol.

Felly, o 1 Medi 2021, bydd y system ADY yn cychwyn i blant o oedran ysgol gorfodol ac iau:

- sy'n mynychu ysgolion a gynhelir ym Mlynyddoedd Meithrin 1 a 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10 ac sydd â darpariaeth addysgol arbennig drwy Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy,
- sy'n cael eu cadw'n gaeth, a
- nad oes ganddynt anghenion addysgol arbennig ar neu cyn y dyddiad hwnnw, ni waeth beth fo'u lleoliad na'u grŵp blwyddyn – gan gynnwys y rheini sy'n mynychu lleoliad addysg heblaw yn yr ysgol, ysgol annibynnol neu'n dewis derbyn addysg yn y cartref.

Mae hyn yn golygu na fydd plant sydd â darpariaeth addysgol arbennig ar hyn o bryd drwy ddatganiad a'r rhai sydd mewn unrhyw fath o addysg ôl-16, yn cael eu cynnwys yn y flwyddyn gyntaf. Mae'n parhau'n bwysig bod gennym system sy'n gweithredu'n effeithiol ac mae angen parhau i wneud gwaith pellach er mwyn datrys cymhlethdodau'r pontio rhwng y system newydd a'r system bresennol. Rwy'n gobeithio rhoi diweddariad pellach cyn diwedd tymor y Senedd hon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel rhan o'r diweddariad hwnnw bwriadaf gyhoeddi canllawiau gweithredu i gefnogi'r gwaith cynllunio ar gyfer cychwyn y system newydd a gosod nodau ac amcanion ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 o'r cynllun. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i drafod â'r rhai sydd ar flaen y gad o ran paratoi ar gyfer trosglwyddo i'r system newydd drwy ein Harweinwyr Trawsnewid.


Felly, rwy'n ymwybodol bod angen i ni gadw llygad barcud ar effaith barhaus pandemig Covid-19, o ystyried pa mor gyflym y gall amgylchiadau ddatblygu a newid. Yn unol â'r adolygiad 21 diwrnod yn ystod hanner tymor mis Chwefror, byddaf yn manteisio ar y cyfle i ystyried amodau ac ailedrych ar gynlluniau, os oes angen hynny, i weld a oes angen newidiadau pellach i adlewyrchu'r sefyllfa a lleddfu pwysau.

Nod y dull gweithredu graddol yw rhoi cyfle i'r holl bartneriaid – ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, awdurdodau lleol a'r rhai sy'n cefnogi dysgwyr – weithredu system newydd yn raddol dros amser. Bydd hyn yn caniatáu i bartneriaid ymgorffori unrhyw wersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf er mwyn gwella'r broses weithredu yn y blynyddoedd dilynol.

Rwy'n parhau'n benderfynol o gyflwyno'r newidiadau hyn, ac ar 4 Ionawr, yn unol â chychwyn rolau statudol y Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY), y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) a Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (SADYBC), cyhoeddais ganllawiau anstatudol i sicrhau bod y rhai sy'n ymgymryd â'r rolau hyn yn gallu gwneud hynny gyda'r wybodaeth ddiweddaraf o'r Cod ADY diwygiedig.

Fel ag erioed, rwy'n ddiolchgar am eich cymorth i gyflawni'r diwygiadau trawnewidiol a heriol hyn.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education